

Archwilio Pam **Dŵr**



Fersiwn Estynedig

Archwilio Pam

Dŵr

Tania ap Siôn a Leslie J Francis
Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwrpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 5 - 7 mlwydd oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Teitlau'r gyfres *Archwilio Pam* yw:

Bara
Croes
Goleuni
Menora
Fêl
Dŵr
Symbolau Ffydd





Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r ardal maen nhw'n byw ynddi a'r lleoedd maen nhw'n ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i', er mwyn eu helpu

i ddod i adnabod y lleoedd hyn yn well. Heddiw, fe wnaethon nhw ddarllen llyfr am ddŵr, ac yna fe fuon nhw'n ceisio gweld sawl ffordd wahanol o ddefnyddio dŵr y gallen nhw ddod o hyd iddi, a ble.



Roedd Aled a Siân yn gallu aroglï persawr yr hylif bath, ac fe redodd y ddau at yr ystafell ymolchi. Fe wnaethon nhw aros i wrando ar sŵn y dŵr yn llenwi'r bath. Fe wnaethon nhw edrych i mewn i'r

ystafell ymolchi ac anadlu'r stêm cynnes llaith. Syllodd y ddau ar y bath gwyn, a oedd bron yn barod i'w brawd bach.



Yno, yn y bath, fe welon nhw'r hwyaden felen a'r cwch bach, y tegan dŵr a'r cwpan, yr olwynion dŵr a'r cafau. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i –

dŵr," gwaeddodd Siân. Pwyntiodd at y dŵr yn y bath. Roedd y dŵr yn arllwys o'r tapiau ac yn sblasio ac yn troelli wrth iddo lenwi'r bath.



Cerddodd Aled a Siân i lawr y grisiau i'r gegin. Wrth iddyn nhw agor y drws, fe glywon nhw sŵn dŵr yn byrlymu a sŵn dŵr yn troi a throi. Fe welon nhw'r tegell yn berwi ar ben yr wyneb gweithio, a'r

peiriant golchi'n corddi o dan yr wyneb gweithio. Agorodd Aled yr oergell i edrych beth roedd e'n gallu gweld yno.



Yno, yn yr oergell, fe welon nhw'r carton llaeth, a'r poteli o sudd a diodydd ffrwythau yn un rhes yn barod i'w hyfed. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – dŵr," gwaeddodd Siân. Pwyntiodd at botelaid o

ddŵr byrlymus yn sefyll o dan yr wyau. Gwyliodd y ddau y cannoedd o swigod bach yn codi'n gyflym i arwyneb y dŵr yn y botel.



Ar ôl mynd allan o'r tŷ, aeth Aled a Siân ar hyd y stryd. Wrth gerdded heibio tŷ eu cymydog, fe wnaethon nhw aros i edrych ar ei ardd. Fe welon nhw giât wedi ei phaentio â phaent gwyrdd

disglair. Fe wnaethon nhw aroglï'r blodau persawrus, hardd, gyda'u petalau coch bregus. Fe welon nhw Mr Roberts yn gweithio'n brysur yn ei ardd.



Yno, yn yr ardd, fe welon nhw raw i balu, berfa i gario, a hadau blodau i'w plannu. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – dŵr," gwaeddodd Aled. Pwyntiodd at y can dŵr oedd yn eistedd ar y pridd

llyfn newydd ei drin. Roedd y can dŵr yn un mawr, trwm, ac roedd pig arbennig ganddo ar gyfer arllwys dŵr.



Cerddodd Aled a Siân ymlaen heibio'r tai nes cyrraedd yr afon. Safodd y ddau ar y bont gerrig lwyd a sylu i'r dŵr. Yno, roedd y dŵr yn glir a llonydd ac roedden nhw'n gallu gweld eu

hadlewyrchiad yn y dŵr. Yno, fe wnaethon nhw feddwl am yr holl bethau byw oedd wedi'u cuddio o'r golwg.



Safodd Aled a Siân ar lan yr afon i wyllo dyn yn pysgota. Yn ei ymyl, roedden nhw'n gallu gweld bachgen wrth ei fodd yn hwylio ei gwch tegan. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – dŵr," gwaeddodd

Siân. Pwyntiodd at yr afon. Roedd glan yr afon yn brysur gyda phobl yn gwneud pob math o wahanol bethau.



Gadawodd Aled a Siân yr afon a mynd ymlaen ar eu taith i weld beth arall allen nhw ddod o hyd iddo. Cerddodd y ddau heibio'r parc lleol, heibio'r byngalos smart, a heibio'r rhes o hen dai teras.

Yna, fe ddaethon nhw at dŷ eu ffrindiau Ahmed a Salma. Fe wnaethon nhw ganu'r gloch ac aros i'w ffrindiau ddod at y drws.



Yn y tŷ, roedd tad Ahmed a Salma'n brysur wrth y sinc, yn ymolchi gyda dŵr o'r tap. "Mae'n gwneud ei hun yn barod i fynd i weddïo," meddai Salma. "Tybed pam mae dŵr mor bwysig i Fwslimiaid wrth

iddyn nhw weddïo?" gofynnodd Aled i Siân, wrth iddyn nhw wylïo tad Ahmed a Salma wrthi'n brysur yn ymolchi.




Y bore hwnnw, aeth Aled a Siân gyda'u ffrindiau i'r cae chwarae. Roedden nhw'n dal i feddwl pam mae dŵr mor bwysig i Fwslimiaid wrth iddyn nhw weddio. Wedi iddyn nhw orffen chwarae ar y

siglenni a'r ffrâm ddringo, aeth Ahmed a Salma ag Aled a Siân i'w mosg er mwyn eu helpu i ddod o hyd i'r ateb i'w cwestiwn.



Y tu mewn i'r mosg, tynnodd Aled a Siân eu hesgidiau a'u rhoi ar y silff. Fe wnaethon nhw orchuddio'u pennau â'r cap a'r sgarff gawson nhw gan Ahmed a Salma. Wrth sefyll yn ymyl yr ystafelloedd ymolchi, roedden nhw'n gallu clywed

sŵn pobl yn paratoi eu hunain ar gyfer mynd i weddïo. "Tybed pam mae dŵr mor bwysig i Fwslimiaid wrth iddyn nhw weddïo?" gofynnodd Siân i Aled.



Aeth Ahmed a Salma ag Aled a Siân yn ôl gyda nhw i'w tŷ gan ddweud bod ganddyn nhw rywbeth yno i'w ddangos iddyn nhw. Wrth iddyn nhw yfed sudd oren a bwyta teisennau, fe wnaethon nhw

drafod sut mae Mwslimiaid yn gweddïo ar Allah bum gwaith y dydd. Yna, fe ddywedodd Ahmed a Salma wrth Aled a Siân pam mae dŵr mor bwysig i Fwslimiaid wrth iddyn nhw weddïo.



Gan estyn at y silff uchaf, tynnodd Ahmed a Salma y Qur'an, a stand y Qur'an, i lawr. Cyn iddyn nhw agor y llyfr, fe olchodd y ddau eu dwylo a gorchuddio'u pennau. "Dyma ein llyfr arbennig ni,"

meddai Salma. "Yma, yn surah 5, mae Allah yn gofyn i Fwslimiaid ymolchi mewn ffordd arbennig cyn gweddio."



Dyweddodd Ahmed a Salma wrth Aled a Siân bod Mwslimiaid, wrth iddyn nhw ymolchi, yn glanhau y tu allan a thu mewn iddyn nhw eu hunain. Yna, pan oedden nhw'n lân, roedden nhw'n barod i foli

Allah mewn gweddi. Gan arwain Aled a Siân i ystafell arall, fe ddywedodd Ahmed a Salma y bydden nhw'n dangos iddyn nhw sut mae Mwslimiaid yn ymolchi cyn gweddïo.




Gwelodd Aled a Siân eu ffrindiau'n llenwi sinc â dŵr glân, a'u clywed yn adrodd geiriau'r Bismillah. "Yn enw Allah, Mwyaf Grasol, Mwyaf Trugarog," meddai Ahmed a Salma gyda'i gilydd. Yna, fe

edrychodd Aled a Siân arnyn nhw'n golchi eu dwylo, ceg, trwyn, wyneb, breichiau, pen a'u traed.



Aeth Ahmed a Salma ag Aled a Siân yn ôl i'r mosg ar gyfer y gweddiâu Jum'ah am ganol dydd. Edrychodd Aled a Siân trwy'r drysau agored i mewn i'r neuadd weddio fawr. Fe welon nhw'r

carped patrymog yn yr ystafell heb ddodrefn. Fe welon nhw'r wal qibla, oedd yn dangos i'r Mwslimiaid pa gyfeiriad i'w wynebu wrth weddio.



Yna, fe aeth Ahmed ag Aled i gael golwg agosach ar y dynion oedd wedi dod at ei gilydd i weddio. Roedd y dynion yn ymgrymu, yn penlinio ac yn ymostwng ar y llawr o flaen Allah. Gyda'i gilydd,

roedd y dynion yn llefaru geiriau Arabeg, yn moli mawredd Allah, yn diolch am roddion Allah, ac yn gofyn am fendithion Allah.



Dyweddodd Ahmed a Salma wrth Aled a Siân bod llawer o Fwslimiaid yn gweddïo fel hyn pum gwaith y dydd, yn y tŷ, yn y gwaith, neu yn y mosg. Roedd gweddïo yn eu helpu i gofio am yr holl

bethau da mae Allah yn eu rhoi iddyn nhw, ac i fod yn ddiolchgar bob dydd. Mae dŵr yn rhoi bywyd, ac mae Ahmed a Salma yn credu bod dŵr yn rhodd arbennig iawn gan Allah.



Gorffennodd y gweddïau gyda chyfarchiad Mwslimaidd i'r rhai oedd o'u cwmpas. "Salaam 'Alaykum," meddai pawb, sy'n golygu 'Tangnefedd i

chi'. Trodd Ahmed a Salma at Aled a Siân, a dweud, "Cyn hir, fe fyddwn ni'n ddigon hen i ymolchi a gweddïo pum gwaith y dydd!"



Ar eu ffordd adref, meddylodd Aled a Siân pa mor rhyfeddol yw dŵr, a meddwl am yr holl wahanol ffyrdd mae pobl yn defnyddio dŵr. Wrth i'r glaw ddisgyn o'u cwmpas, fe estynnodd y ddau eu

dwylo i ddal y diferion glaw. "Nawr, rydyn ni'n gwybod pam mae dŵr mor bwysig i Fwslimiaid wrth iddyn nhw weddio!" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd.

Mae Aled a Siân yn chwarae ‘Dw i’n gweld â’m llygad bach i’, a heddiw maen nhw’n chwilio am ‘Ddŵr’. Maen nhw’n dod o hyd i ddŵr mewn pob math o leoedd o gwmpas ble maen nhw’n byw. Pan fydd Aled a Siân yn ymweld â’u ffrindiau, Ahmed a Salma, maen nhw’n dechrau gofyn cwestiwn pwysig – “Tybed pam mae dŵr mor bwysig i Fwslimiaid wrth iddyn nhw weddio?” Gyda help Ahmed a Salma, mae Aled a Siân yn dechrau dod o hyd i rai atebion.



Bear Lands Publishing